

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Tachwedd 6ed, 2014 yn brydlon am 7-00 y.h. yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 2il, 2014.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Seminar: Datblygu'r fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
 2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2014.
6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned
 1. Cais rhif: C14/0726/41/LL – Dymchwel garej presennol a chodi garej newydd yn ei le; Gernant, Llangybi.
7. Arolwg blynyddol offer Cae Chwarae Llangybi. Wedi anfon copi o'r adroddiad drwy e bost gyda rhaglen cyfarfod mis Hydref.
8. Siarter Iaith Cyngor Gwynedd.
9. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd.
10. Gwasanaeth teithiol banc y Nat West yng Nghricieth.

11. Materion yn y gymuned.

Rhoslan a'r Ynys

Dwy gwter wedi cau ac o'r golwg gan faw a thyfiant o flaen Tŷ a Chapel y Beirdd. Pe bai yna law trwm gallai dwr fynd i'r tŷ.

Llanystumdwy

1. Dim digon o finiau dal baw cŵn yn yr ardal. Cynnig rhoi bin ar y lon gefn, un ai hanner ffordd rhwng Llanystumdwy a Chricieth rhwng Cefn y Maen a Fferm Bron Eifion neu wrth ymyl Pen Bryn a hanner ffordd ar y llwybr cerdded/beic rhwng Llanystumdwy a Chricieth, wrth ymyl Bron Eifion neu ar waelod Lôn Fêl wrth ymyl Caerfa.
2. Gor dyfiant llwyni Sŵn yr Afon ger pont y pentref. Maent yn gwyro dros y palmant ac yn destun pryder i gerddwyr.

Chwilog

1. Gwendid ar y ffordd a'i bod yn rhoi dros y dibyn rhwng pen lôn Ysgubor Hen a Talar Deg.
2. Biniau ar Lôn Y Plas.

Llangybi

12. Materion heb gael ymateb iddynt.

Cyngor Gwynedd, Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a gofal Stryd; Ail asesu blaenoriaeth trafndiaeth yng Ngroeslon Penybryn, Rhydycroesau ac ail asesu blaenoriaeth trafndiaeth ar groeslon Tyddyn Sianel.

Y Cyngor yn gaeddig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.